SENEDD IEUENCTID CYMRU: Y PWYLLGOR TROSEDD A DIOGELWCH

# YN DDIOGEL, WEDI'U CYNNWYS A'U CLYWED

TACHWEDD 2025

seneddieuenctid.cymru

# AELODAU'R PWYLLGOR



**JAKE DILLON**
Sir Drefaldwyn



**LEWIS WILLIAMS**
Aelod a etholwyd gan bartner (GISDA)



**EMILY WILLIAMS**
Aelod a etholwyd gan bartner (Tŷ Gobaith a Tŷ Hafan)



**KIANI FRANCIS**
Ceredigion



**RILEY BARN**
Preseli Sir Benfro



**GRACE ELIZABETH TILBURY**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



**DEVLIN JACK STANNEY**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**ARYAN GUPTA**
Llanelli



**AWEL GRUG LEWIS**
Aelod a etholwyd gan bartner (Urdd Gobaith Cymru)




**FFION GRACE LEWIS**
Gorllewin Abertawe



**LILLIE LOUISE LLOYD**
Cwm Cynon



**AVA MARTIN-THOMAS**
Pontypridd



**JACK ROBERT GEORGE RIGDON**
Aelod a etholwyd gan bartner (Talking Hands)



**CARYS SIMONS**
Aelod a etholwyd gan bartner (YEPS Cymru)



**NED DONG**
Gorllewin Caerdydd



**AMBER ELIN PERROTT**
Merthyr Tudful a Rhymni



**ISABELLE GRACE RAVENHILL**
Mynwy



**OLIVE ALYS ANWEN BURNS**
Aelod a etholwyd gan bartner (DIGON Plasmawr)



**CHARLOTTE WILLIAMS**
Aelod a etholwyd gan bartner (Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens a George)




**HATICE MIRAC SOLMAZ**
Aelod a etholwyd gan bartner (Tros Gynnal Plant Cymru)

SENEDD IEUENCTID CYMRU: Y PWYLLGOR TROSEDD A DIOGELWCH

# YN DDIOGEL, WEDI'U CYNNWYS A'U CLYWED

TACHWEDD 2025



# CYNNWYS

**Cyflwyniad ... 6**

**Geirfa ... 8**

**1. Diogelwch, Bwlio ac Ymddygiad sy'n tarfu ... 9**

**2. Iechyd Meddwl ... 13**

**3. Ymgysylltu â Disgyblion, a Pherthnasoedd ... 16**

**4. Argymhellion ... 21**

**Atodiad ... 25**

# CYFLWYNIAD

*Grŵp o 20 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ydym ni, sy'n cynrychioli'r Pwyllgor Trosedd a Diogelwch. Crëwyd y Pwyllgor ar ôl i bob un o'r 60 o Aelodau'r Senedd Ieuenctid ddewis Trosedd a Diogelwch fel un o dri mater i'w flaenoriaethu ar gyfer y tymor hwn.*

Mae pryder cynyddol wedi bod ynghylch trosedd a diogelwch mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru, gydag adroddiadau newyddion yn awgrymu bod ymddygiad disgyblion yn gwaethygu, gan gynnwys enghreifftiau difrifol o ymddygiad ymosodol a threisgar ac ymddygiad aflonyddgar fel peidio â dilyn rheolau, a lefelau presenoldeb is.

Mae rhai o aelodau ein Pwyllgor wedi gweld y materion â'u llygaid eu hunain, gydag un aelod yn mynychu ysgol lle cafodd athrawon eu trywanu gan ddisgybl, tra bod eraill wedi gweld disgyblion yn dod ag arfau i'r ysgol. Rydyn ni'n gwybod nad yw rhai disgyblion yn teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n dysgu, ac mae angen rhoi sylw i hyn er eu llesiant nhw, a'u galluogi i roi 100% tuag at eu haddysg. Dangosodd arolwg gweithlu diweddar gan Lywodraeth Cymru fod dros 90% o'r ymatebwyr yn teimlo bod amrywiaeth, ystod, difrifoldeb ac amlder ymddygiad heriol neu aflonyddgar wedi cynyddu ers y pandemig.

Roedden ni eisiau ymchwilio i'r mater hwn a rhoi llais i bobl ifanc fel rhan o'r sgwrs. Ein nod oedd deall eu teimladau a'u profiadau, a chlywed eu barn ar yr hyn a allai fod yn achosi'r heriau hyn. Roedden ni hefyd eisiau clywed eu syniadau am sut i wella ymddygiadau, perthnasoedd, ac yn y pen draw wella diogelwch cyffredinol yn y llefydd maen nhw'n cael eu haddysg. Rydyn ni'n gwybod nad yw'r materion hyn yn bodoli mewn swigen sydd ar wahân i unrhyw broblemau a heriau ehangach rydyn ni'n eu hwynebu yn y gymdeithas. Mae amgylchedd teuluol a chartref person ifanc, tlodi, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ymysg rhai o'r ffactorau a all lunio eu hymddygiad a'u gweithredoedd. Gan fod y materion hyn mor gymhleth ac eang eu cwmpas, penderfynon ni ganolbwyntio ein hymdrechion lle roedden ni'n meddwl y gallwn ni wneud y gwahaniaeth mwyaf – drwy edrych yn benodol ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol a'r coleg.

Roedden ni eisiau i'n hymgynghoriad roi cyfle i gymaint o bobl ifanc â phosibl gael dweud eu dweud. Roedd hefyd yn bwysig i ni fod pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol, ac ar draws gwahanol leoliadau addysg yn cymryd rhan, er mwyn gweld oes oedd gwahaniaethau yn eu profiadau a'u safbwyntiau. Cynhaliwyd ein hymgynghoriad rhwng 8 Medi a 12 Tachwedd 2025. Roedd yn cynnwys arolwg ar-lein, a grwpiau ffocws gyda chriwiau penodol o bobl ifanc o gefndiroedd a chymunedau sydd wedi'u hymylu. Cyfrannodd 1,985 o bobl ifanc at yr arolwg, a chymerodd 106 ran mewn trafodaethau grŵp ffocws.

Roedd ein grwpiau ffocws yn cynnwys sesiynau gyda phobl ifanc mewn darpariaeth addysgol amgen, pobl ifanc LHDTC+, rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a phobl ifanc sy'n profi tlodi. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl bobl ifanc a roddodd eu hamser i ddweud eu dweud, ac i'r ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid a'n helpodd i gysylltu â nhw. Mae nifer y bobl a gymerodd ran, mewn amser cymharol fyr, yn dangos pa mor bwysig yw'r mater hwn, a pha mor hanfodol yw gwneud newidiadau fydd yn gwella profiadau mewn ysgolion a cholegau.

Mae'r canfyddiadau yn ein hadroddiad yn adlewyrchu barn pobl a ymatebodd o'u gwirfodd ac a ddewisodd gymryd rhan yn yr arolwg ac a wahoddwyd i gymryd rhan yn ein grwpiau ffocws. Ystyr hyn yw nad yw'r canlyniadau efallai yn cynrychioli pob person ifanc yng Nghymru yn llawn, ond mae'n rhoi darlun clir iawn i ni o'r pryderon a'r syniadau a rannwyd gan y rhai a gymerodd ran.

# GEIRFA

### Teimlo'n ddiogel

Pan fyddwn ni'n dweud 'teimlo'n ddiogel', ystyr hyn yw gwybod dy fod wedi dy amddiffyn, bod neb arall am dy frifo yn gorfforol nac yn emosiynol, neu godi ofn arnat ti.

### Ymddygiad sy'n tarfu ar addysg disgyblion

Pan fyddwn ni'n dweud 'ymddygiad sy'n tarfu ar addysg disgyblion' byddwn yn cynnwys pethau fel peidio â gwrando na thalu sylw mewn gwersi, peidio â dilyn y rheolau, bwlio, peidio â mynd i wersi

### Ymddygiad treisgar neu gamdriniol

Pan fyddwn ni'n dweud 'ymddygiad treisgar neu gamdriniol' byddwn yn cynnwys pethau fel ceisio achosi niwed corfforol i rywun fel taro, cicio neu wthio.

### Ymddygiad rhywiol digroeso a allai wneud i bobl deimlo'n anniogel

Pan fyddwn ni'n dweud 'ymddygiad rhywiol digroeso a allai wneud i bobl deimlo'n anniogel' byddem yn cynnwys pethau fel cyffwrdd corff rhywun mewn ffordd rywiol, canolbwyntio ar rywun i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb ganiatâd, neu gael lluniau neu fideos rhywiol oddi wrth rhywun ar-lein.

# 1. DIOGELWCH, BWLIO AC YMDDYGIAD SY'N TARFU

*Gofynnon ni pa mor ddiogel mae pobl ifanc yn teimlo, pa mor aml maen nhw'n gweld ymddygiad treisgar neu gamdriniol, ymddygiad rhywiol digroeso, bwlio, ac ymddygiad sy'n tarfu ar eu haddysg yn eu hysgol neu goleg.*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a atebodd ein harolwg (72%) eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol neu goleg, ond roedd llai ohonynt (62%) yn teimlo ei fod yn lle diogel a chynhwysol.

Roedd 20% wedi gweld staff yn dioddef ymddygiad treisgar neu gamdriniol, a hynny ar adegau, yn aml, neu drwy'r amser. Roedd 11% wedi gweld disgyblion eraill, a 4% wedi gweld staff yn dioddef ymddygiad rhywiol digroeso ar adegau, yn aml, neu drwy'r amser.

Dywedodd 40% o bobl ifanc wrthym yn ein harolwg eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn dioddef ymddygiad treisgar neu gamdriniol, a hynny ar adegau, yn aml, neu drwy'r amser, ond dim ond 19% oedd yn teimlo bod hyn yn broblem.

Roedd ymatebion o'n harolwg a'r grwpiau ffocws yn dweud wrthym fod pobl ifanc o grwpiau sydd wedi'u hymylu wedi cael profiadau gwaeth:

> Dywedodd nifer uwch o ymatebwyr anabl fod ymddygiad treisgar neu gamdriniol, ac ymddygiad rhywiol anniogel yn broblem (10% a 12% yn uwch na chyfanswm sampl yr arolwg yn ôl eu trefn).
>
> Roedd y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd yn fwy tebygol o deimlo nad oedd yr ysgol neu'r coleg yn ddiogel a chynhwysol (12% yn is na chyfanswm sampl yr arolwg).

- Teimlai ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod yn berson traws neu rhyweddhylifol fod yr ysgol neu'r coleg yn llai diogel a chynhwysol, a bod

ymddygiad treisgar neu gamdriniol, ac ymddygiad rhywiol digroeso yn fwy o broblem na'r sampl arolwg cyfan.

Cadarnhaodd cyfranogwyr o grwpiau wedi'u hymylu oedd ar y grwpiau ffocws eu bod yn cytuno â'r themâu yn ein harolwg, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n fwy agored i niwed yn eu hysgol neu goleg na disgyblion eraill. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym, yn enwedig y rhai mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, pa mor gyffredin oedd ymddygiad treisgar neu gamdriniol pan roeddent yn yr ysgol.

**'Roedd ymddygiad camdriniol yn gyffredin iawn, iawn yn fy ysgol i. Ymladd ar y buarth, ffraeo yn y dosbarth, gweiddi yn y dosbarth – bob dydd'**

Dywedodd mwyafrif sylweddol o'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg wrthym fod disgyblion yn tarfu yn rheolaidd. Dim ond 11% oedd yn teimlo nad oedd disgyblion byth, neu'n anaml yn tarfu yn eu hysgol neu goleg, a dywedodd 43% fod y math hwn o ymddygiad yn broblem.

Roedd pobl ifanc anabl a ymatebodd i'n harolwg hyd yn oed yn fwy tebygol o ddweud bod ymddygiad sy'n tarfu yn broblem (14% yn uwch na'r sampl gyffredinol o'r arolwg). Adroddodd yr ymatebwyr i'n harolwg a nododd eu bod yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol am fwy o broblemau gydag ymddygiad sy'n tarfu (12% yn uwch na sampl cyffredinol yr arolwg).

***"Roeddwn i'n un o'r bobl yna oedd yn gwrthod mynd i mewn. Ond pan roeddwn i'n mynd, roedd yna wastad helynt. Byddai pobl yn mynd o 'stafell ddosbarth i 'stafell ddosbarth, yn gweiddi ar ei gilydd."***

Roedd bwlio yn thema gref a gododd yn aml yn ein grwpiau ffocws. Dywedodd y cyfranwyr wrthym fod y rhai sy'n perthyn i grwpiau sydd wedi'u hymylu - fel pobl ifanc anabl, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc LHDTC+, a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig gwahanol yn cael eu targedu'n fwy nag eraill yn rheolaidd.

***"Yn yr ysgol i mi, y bobl oedd ar yr ymylon oedd yn cael eu bwlio. Roedd 30 o bobl yn fy nosbarth i yn yr ysgol gynradd. Roedden nhw'n pigo arna'i yn ofnadwy nes i fi droi'n 16, nes i fi fynd i'r coleg. Fe ges i fy mwlio drwy gydol yr ysgol gynradd ac i mewn i'r ysgol uwchradd ac roedd yn afiach. Does 'na ddim cefnogaeth o gwbl. Dwi wedi gwybod erioed mod i ar y sbectrwm o ran awtistiaeth ac ADHD, ond wnaeth yr ysgol byth ei gweld hi fel'na."***

***"Dwi'n teimlo bod lleiafrifoedd yn cael eu trin yn wael, ac mae rhai o'r pethau mae pobl yn eu dweud..."***

## Casgliadau

Nid oedd llawer ohonom ar y Pwyllgor yn synnu gan yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym yn yr adran hon. Pan edrychon ni ar y safbwyntiau a rannwyd gyda'n harolwg a'n grwpiau ffocws, nid oedd unrhyw beth yn sioc fawr. Ond pan wnaethom gymharu'r canlyniadau â'n syniad ni o'n huchelgais, roedd yn amlwg nad yw pethau'n ddigon da.

Yr hyn sy'n amlwg i ni yw ein bod ni, a phobl ifanc eraill yng Nghymru, wedi dod i arfer ag ymddygiad ymosodol yn yr ysgol a'r coleg. Mae wedi dod yn norm. Pwysleisir hyn gan y ffaith mai dim ond 19% oedd yn teimlo bod ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn broblem, er bod 40% wedi ei weld yn digwydd.

Rydyn ni'n credu ei bod hi bron â bod yn dderbyniol bod 62% o bobl ifanc yn teimlo bod eu hysgol neu goleg yn ddiogel ac yn gynhwysol, ond unwaith eto, nid yw hyn yn ddigon da, yn enwedig gan ein bod ni'n ymwybodol o enghreifftiau lle mae pobl ifanc yn dod ag arfau i'r ysgol oherwydd eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw eu hangen i gadw eu hunain yn ddiogel. Yn ein profiadau ein hunain rydym yn teimlo y gall ysgolion a cholegau ganolbwyntio gormod ar wneud yn siwr fod gwisg disgyblion yn gywir, yn hytrach nag edrych ar yr hyn maen nhw'n ei gario yn eu bagiau a allai fod yn beryglus. Mae angen gwneud mwy i greu amgylchedd lle mae pob person ifanc yn teimlo'n ddiogel, a lle maent yn chwarae rhan lawn wrth adolygu gweithdrefnau a systemau diogelwch mewn ysgolion a cholegau, er mwyn helpu myfyrwyr i deimlo'n fwy diogel.

Rydym hefyd yn poeni am bobl ifanc o grwpiau sydd wedi'u hymylu, sy'n amlwg yn cael eu heffeithio yn fwy nag eraill. Er bod nifer yr ymatebwyr i'n harolwg o'r grwpiau hyn yn gymharol fach, roedd yr adborth a gawsom yn ein grwpiau ffocws yn cyfateb i lawer o'r hyn a ddaeth i'r amlwg yn ein harolwg. Mae angen gweithredu ar frys i ddeall yn well pam mae'r gwahaniaethau hyn yn bodoli, a beth y gellir ei wneud i atal pobl ifanc rhag cael eu trin yn wahanol oherwydd lliw eu croen, eu credoau, anabledd, rhywedd neu hunaniaeth.

Nododd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd themâu tebyg yn ei waith ar **fynediad cyfartal at addysg a gofal plant i bobl anabl**:

***"Mae'n amlwg bod nifer fawr o achosion o fwlio ar sail anabledd yn digwydd ar draws ysgolion yng Nghymru. Roedd rhai o'r ystadegau a glywsom yn frawychus, ynghyd â'r ffaith y derbynnir ei fod bron yn norm."***

Mae ymddygiad sy'n tarfu hefyd yn broblem fawr. Dywedodd llai na chwarter y bobl ifanc a holwyd nad oedd hyn yn broblem, sy'n golygu bod y mwyafrif yn

teimlo ei fod yn effeithio ar eu dysgu. Mae'r lefel hon o darfu yn broblem fawr ac yn rhwystr mawr i addysg pobl ifanc, gan ei gwneud hi'n anoddach iddyn nhw ganolbwyntio, teimlo'n ddiogel a gwneud eu gorau.

# 2. IECHYD MEDDWL

*Gofynnon ni i bobl ifanc pa mor aml maen nhw'n cael trafferthion gyda'u hiechyd meddwl, a ydyn nhw wedi gofyn am gymorth, a beth yw eu barn am y cymorth sydd ar gael yn eu hysgol neu goleg.*

Dywedodd 66% o'r bobl ifanc y gwnaethon ni eu holi fod teimlo dan straen neu iechyd meddwl gwael yn cael effaith negyddol ar eu hymddygiad a'u presenoldeb yn yr ysgol. Dywedodd bron hanner (44%) fod pwysau arholiadau yn achos penodol o straen. Cafodd straen ac iechyd meddwl gwael fwy o effaith ar ymddygiad a phresenoldeb pobl ifanc ag anabledd, ac ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol (20% yn uwch na chyfanswm sampl yr arolwg).

Fe wnaethon ni ofyn rhai o'r un cwestiynau a ddefnyddiwyd mewn ymgynghoriadau iechyd meddwl cynharach a gynhaliwyd gan y Senedd Ieuenctid yn 2020 a 2022 er mwyn i ni allu cymharu'r canlyniadau dros amser.

| Pa mor aml rydych chi'n cael trafferth gyda'ch iechyd meddwl? | 2020 | 2022 | 2025 |
|---|---|---|---|
| **Bob dydd** | 28% | 28% | 16% |
| **O leiaf unwaith yr wythnos** | 17% | 16% | 12% |
| **Mwy nag unwaith yr wythnos** | 16% | 16% | 13% |
| **Unwaith bob pythefnos** | 6% | 5% | 8% |
| **Unwaith y mis** | 3% | 5% | 5% |
| **Yn achlysurol** | 24% | 20% | 27% |
| **Byth** | 8% | 10% | 19% |

Roedd gostyngiad o 12% yn nifer y bobl ifanc sy'n dweud eu bod yn cael trafferth gydag iechyd meddwl bob dydd, a chynnydd o 9% yn nifer y bobl ifanc sy'n dweud nad ydyn nhw byth yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl. Roedd y rhai ag anabledd, y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn draws neu rhyweddhylifol, ac

ymatebwyr hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol yn fwy tebygol o gael trafferth gyda'u hiechyd meddwl bob dydd neu unwaith yr wythnos (rhwng 19 a 27% yn uwch na chyfanswm sampl yr arolwg).

Dywedodd 53% o bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn hapus ag argaeledd a dibynadwyedd cymorth iechyd meddwl (cynnydd 22% ers 2022), a dywedodd 32% eu bod wedi ceisio siarad â rhywun am eu hiechyd meddwl yn eu hysgol neu goleg (cynnydd 9% ers 2022).

Dywedodd 58% eu bod yn hapus ag ansawdd y gefnogaeth a gawsant (yn debyg i'r 59% yn 2022). Dywedodd 28% nad oeddent yn gofyn am help oherwydd nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny (o'i gymharu â 31% yn 2022).

## Casgliadau

Mae'n galonogol gweld ei bod hi'n ymddangos bod mwy o bobl ifanc yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â faint o gymorth iechyd meddwl sydd ar gael. Rydyn ni'n credu bod hyn yn helpu mwy o bobl i ofyn am gymorth ac felly'n dioddef iechyd meddwl gwael yn llai aml. Mae hyn hefyd yn cyfateb i'r hyn y mae rhai ohonom wedi'i weld â'n llygaid ein hunain mewn ysgolion a cholegau, lle mae mwy o bwyslais ar gefnogi lles meddyliol disgyblion. Gallai hyn fod oherwydd y pwyslais cynyddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar yr **'Ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl'**.

Ond rydyn ni'n siomedig nad oedd cynnydd tebyg wedi'i wneud o ran barn pobl ifanc ar ansawdd y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn, sydd heb newid llawer ers adroddiad **'Meddyliau Iau o Bwys'** Senedd Ieuenctid Cymru yn 2022. Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos bod stigma ynghylch gofyn am gymorth yn dal i fod yn rhwystr. Er bod mwy o bobl yn chwilio am gymorth, mae'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd nad ydyn nhw'n gwneud hynny oherwydd nad oedden nhw'n teimlo'n gyfforddus wedi aros tua'r un peth ag yr oedd yn 2022. Er bod mwy o gymorth mwy dibynadwy ar gael mewn ysgolion a cholegau, ni fydd hynny'n datrys y broblem os yw pobl ifanc yn dal i boeni am gael eu barnu neu eu trin yn wahanol pan fyddant yn gofyn am gymorth.

Dywedodd dwy ran o dair o bobl ifanc wrthym fod straen neu iechyd meddwl gwael yn effeithio'n negyddol ar eu hymddygiad a'u presenoldeb yn yr ysgol, ac mae'r ffigur hwnnw lawer yn uwch ymhlith pobl ifanc o grwpiau sydd wedi'u hymylu. Oherwydd hyn, rydyn ni o'r farn bod angen rhoi'r dasg i ysgolion a cholegau i wella ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael, a rhoi adnoddau digonol iddynt wneud hynny. Mae angen iddyn nhw gynllunio cefnogaeth yn rhagweithiol yn y cyfnod cyn arholiadau. Mae'n bwysig hefyd parhau i weithio tuag at wneud i

sgyrsiau am iechyd meddwl deimlo'n normal fel bod chwilio am gymorth yn cael ei weld fel rhan naturiol o fywyd ysgol – nid fel rhywbeth anarferol sy'n codi cywilydd.

# 3. YMGYSYLLTU Â DISGYBLION, A PHERTHNASOEDD

*Gofynnon ni i bobl ifanc am y wybodaeth maen nhw'n ei chael yn yr ysgol neu'r coleg, eu teimlad o fod yn rhan o bethau, ac am eu perthnasoedd â staff a disgyblion eraill.*

Dywedodd dwy ran o dair o ymatebwyr i'r arolwg y byddent yn gwybod beth i'w wneud pe baent yn gweld neu'n profi ymddygiad treisgar neu gamdriniol, neu ymddygiad rhywiol diangen a allai wneud i bobl deimlo'n anniogel. Dywedodd 57% hefyd eu bod wedi cael digon o wybodaeth am bynciau fel iechyd meddwl, perthnasoedd iach, addysg rhyw, datblygu sgiliau emosiynol, rheoli emosiynau, ac atal trais yn eu hysgol neu goleg.

Yn ein grwpiau ffocws, roedd llawer o bobl ifanc a deimlai fod gwybodaeth ac addysg am berthnasoedd cadarnhaol yn bwysig – yn enwedig pan mae'n helpu disgyblion ac athrawon i ddeall a dangos empathi â phobl ifanc o wahanol gefndiroedd, diwylliannau, crefyddau, credoau a galluoedd.

***"Mwy o wybodaeth am wahaniaethau, hil, LHDT, anableddau, mae angen deall mwy er mwyn i bobl gael mwy o empathi a sylweddoli effaith eu geiriau neu eu gweithredoedd."***

Dywedodd 64% o bobl ifanc y byddai staff yn ymateb yn iawn pe bai pryderon yn cael eu hadrodd iddynt. Dywedodd hanner y bobl ifanc fod eu hysgol neu goleg yn effeithiol o ran creu perthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a staff, ac roedd 58% o'r farn bod hi'n hawdd mynd at staff a byddent yn siarad â nhw'n gyfforddus pe byddent yn poeni am gam-drin neu ymddygiad rhywiol digroeso.

Roedd llawer o sylwadau yn ein harolwg yn amlygu pa mor bwysig yw hi i staff osod esiamplau cadarnhaol, a dangos arweinyddiaeth i feithrin perthnasoedd iach. Dywedodd llawer o bobl ifanc eu bod eisiau mwy o amser gyda staff ysgol a choleg, ac maent hefyd yn gwerthfawrogi 'mannau diogel' lle gallant siarad yn agored am faterion anodd.

***“Athrawon yn gosod esiampl i fyfyrwyr - yn dangos caredigrwydd/perthnasoedd cadarnhaol â'i gilydd i fyfyrwyr iau eu dilyn”***

***“Yn y coleg roedd fy nhiwtor yn ddefnyddiol iawn a byddai’n gwneud amser ar gyfer cyfarfodydd un i un, a byddai’n gofyn i chi roi emoji yn eich llun proffil fel ei fod yn gallu gweld sut roeddech chi’n teimlo’r diwrnod hwnnw, fel y byddai’n gwybod a oeddech chi angen help. Mae'n helpu os ydych chi’n cael ychydig mwy o sylw os ydych chi'n cael amser caled. Check-in gweledol.”***

***“Y Porth - Ystafell dawel gyda gwybodaeth a dywediadau ar y wal i’ch ysgogi, mae'n dda cael rhywle i fynd i ymlacio. Mae'r staff yno'n dda ac yn gefnogol. Gallwn ni fynd yno i ddal i fyny â gwaith”***

Dywedodd ychydig dros hanner y bobl ifanc yn ein harolwg (54%) eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u parchu yn eu hysgol neu goleg, gyda disgyblion iau (13–15 oed) yn llai tebygol o deimlo fel hyn na disgyblion hŷn (16–18 oed). Dywedodd 30% eu bod wedi bod yn rhan o wneud cynlluniau a phenderfyniadau ar gadw disgyblion yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau yn ein harolwg yn dangos bod cyfranogiad disgyblion fel arfer yn digwydd drwy gynghorau ysgol.

Pan ofynnwyd beth allai wella perthnasoedd, presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol neu'r coleg, roedd ambell thema yn dod i’r amlwg yn gyson:

| | |
|---|---|
| Gwneud gwersi'n fwy hwyliog, rhyngweithiol a diddorol | ***“Byddai cael gwersi diddorol ac sy’n berthnasol i fywyd go iawn yn annog pobl i droi fyny’n amlach.”*** <br> ***“Newid technegau addysgu, does neb eisiau eistedd ac edrych ar daflunydd drwy’r dydd. Mae angen iddo fod yn fwy rhyngweithiol, yn enwedig i bobl ag anawsterau dysgu fel ADHD”*** |
| Cynyddu gweithgareddau cymdeithasol a chyfleoedd grŵp | ***“Cynnwys gweithgareddau grŵp, trafodaethau agored, neu hyd yn oed fentora gan gyfoedion. Byddai’n helpu myfyrwyr i ddod i adnabod ei gilydd yn well ac adeiladu amgylchedd mwy cefnogol a pharchus.”*** |
| Darparu grwpiau cynhwysiant | ***Mae gennym gyngor Cynghrair Syth a Chwiar sy'n cefnogi ein myfyrwyr LGBTQIA+, ac mae gennym gyngor o eiriolwyr sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gennym ni Gyngor Iechyd Meddwl hefyd. Mae pob un o’r rhain yn cael eu cynnal gan staff, ond myfyrwyr chweched dosbarth yw cadeiryddion y cyngor, ac mae disgyblion iau ar y cynghorau*** |

| | |
|---|---|
| | ***yn dda iawn am feddwl am syniadau i helpu i hyrwyddo amgylchedd mwy diogel."*** |
| Rhoi mwy o lais i ddisgyblion ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn eu hysgolion a'u colegau, ac wrth osod polisïau. | ***"Mwy o gyfleoedd i roi barn ar bolisïau ar sut mae'r coleg yn rhyngweithio â myfyrwyr"*** <br> ***"Cyfathrebu gwell gyda myfyrwyr a llunio polisïau ymddygiad ar y cyd"*** <br> ***"Gallai fod 'na ffordd o gael adborth am bethau sy'n digwydd yn ystod yr wythnos sydd wedi gwneud yr ysgol yn amgylchedd gwael, y gall athrawon yr ysgol weithio arni wedyn ar gyfer y tymor nesaf."*** |
| Creu diwylliant lle mae llwyddiannau'n cael eu cydnabod | ***"Gall dathlu llwyddiannau, hyd yn oed rhai bach, a hefyd cydnabod ymddygiad da, ysgogi pobl, tra bod cael rheolau clir a theg yn helpu pawb i wybod beth i'w ddisgwyl ganddyn nhw."*** <br> ***"Gwobrau fel cerdyn post bach i'r cartref am bresenoldeb da, jyst i gael gwybod bod y coleg yn cydnabod brwdfrydedd a pha mor wych maen nhw'n gwneud"*** |

## Casgliadau

Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn dweud eu bod yn cael digon o wybodaeth am bethau fel perthnasoedd iach, atal trais ac iechyd meddwl, mae ein profiad – a'r hyn a glywson ni mewn grwpiau ffocws – yn awgrymu nad yw hyn yn gyson ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru. Rydym yn cytuno â'r rhai yn ein grwpiau ffocws a alwodd ar ysgolion a cholegau i roi pwyslais cryfach ar y pynciau hyn. Ni ddylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei roi ar athrawon yn unig. Gall grwpiau ieuenctid a sefydliadau hefyd chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwybodaeth arbenigol i ddisgyblion a staff, a gall disgyblion hŷn sy'n gweithredu fel modelau rôl hefyd gyflwyno negeseuon effeithiol i'w cyfoedion.

Mae angen i ystod eang o wybodaeth fod ar gael i bobl ifanc yn gyson trwy gydol eu hamser mewn addysg i'w helpu i ddeall sut i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, i ddatblygu sgiliau wrth reoli eu hemosiynau, a deall pobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd. Mae angen iddo fod yn berthnasol i'w profiadau bywyd ar y pryd, er enghraifft wrth i bobl ifanc fynd yn hŷn, maent yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â chyffuriau, alcohol a throseddu, gan wneud i benderfyniadau ariannol fod yn bwysicach ac yn y blaen. Dylai'r wybodaeth a'r hyfforddiant sy'n

cael eu darparu baratoi myfyrwyr ar gyfer tasgau hanfodol ar gyfer y byd na fyddent yn ei ddeall fel arall.

Rydym hefyd yn credu y dylai pobl ifanc gael gwybodaeth glir am ganlyniadau bywyd go iawn y gallai materion difrifol fel dod ag arfau i'r ysgol, ymddygiad camdriniol, ymddygiad rhywiol digroeso, a bwlio eu cael arnyn nhw, eu dyfodol, a'r bobl o'u cwmpas, a ddylai lywio mwy o ddisgyblion i ffwrdd o’r llwybr hwn.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd staff sy'n garedig, yn barod i ddeall ac yn hawdd mynd atynt. Clywsom gymaint o enghreifftiau lle’r oedd pobl ifanc yn dweud bod staff yn eu hysgol a'u coleg yn gynnes, yn groesawgar ac yn gefnogol, ac wedi cymryd amser i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. Mae aelodau staff fel hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr trwy osod esiampl dda. Ond clywsom hefyd gan bobl ifanc a oedd yn teimlo'r gwrthwyneb – yn enwedig y rhai o grwpiau wedi’u hymylu, a oedd yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu camddeall. Mae'n ymddangos bod y darlun yn newid o ysgol i ysgol a choleg i goleg. Mae'n bwysig bod gan bobl ifanc fynediad at athrawon a staff yn eu hysgol neu goleg i'w cefnogi. Rydym yn gwybod bod athrawon o dan lawer o bwysau, felly mae’n bwysig bod ganddynt le i ddatblygu'r sgiliau a chael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Mae angen amser arnyn nhw hefyd i ddarparu help a datblygu perthynas gref ac effeithiol â’u disgyblion. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n gwneud byd o wahaniaeth ac yn creu amgylchedd llawer mwy cadarnhaol a chefnogol i bobl ifanc. Rydym hefyd yn credu gall myfyrwyr hŷn fod yn rhan o gyflwyno negeseuon gan fod clywed hynny gan eich cyfoedion weithiau’n cael mwy o effaith ar ddisgyblion.

***” Cael myfyrwyr sy’n cael eu gweld fel bod yn esiampl dda i’r blynyddoedd iau, gallan nhw gymryd ambell i wers, er enghraifft, neu fynd i’r ysgolion bwydo a dysgu blwyddyn chwech”***

Roedd llawer o enghreifftiau da wedi'u rhannu gan bobl ifanc lle roedd gwersi yn cynnwys elfennau cymdeithasol ac ymarferol. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau llai ffurfiol fel rhan o'r diwrnod ysgol yn gwneud dysgu yn fwy amrywiol, hwyliog a diddorol, ac yn helpu i atal disgyblion rhag colli diddordeb – sy'n aml yn gallu arwain at ymddygiad aflonyddgar. Rydym hefyd yn cefnogi galwad pobl ifanc am fwy o glybiau, grwpiau, diwrnodau dod i adnabod, a theithiau ysgol neu goleg, sydd hefyd yn helpu i ddatblygu deinameg wahanol rhwng disgyblion a staff nad yw bob amser yn bosibl ei meithrin mewn lleoliad ystafell ddosbarth arferol.

Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt a'u parchu yn eu hysgol neu goleg, rydym yn teimlo y dylai'r nifer hwn fod yn uwch. Mae llais

disgyblion yn faes pryder i ni fel pwyllgor, gyda dim ond 30% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi bod yn rhan o wneud cynlluniau a phenderfyniadau ar gadw disgyblion yn ddiogel. Credwn fod hyn yn ddadlennol ac yn dangos sut mae angen i'r diwylliant mewn mannau dysgu newid er mwyn rhoi mwy o lais a dylanwad i bobl ifanc ar bob agwedd ar eu bywyd ysgol neu goleg. Mae disgyblion eisiau cymryd mwy o ran mewn trafodaethau ynghylch sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae polisïau'n cael eu gosod, a sut mae gwersi'n cael eu llunio. Pan fydd hyn yn digwydd, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi'n fwy, yn chwarae mwy o ran, ac mae ganddyn nhw fwy o ymdeimlad o berchnogaeth, a bydd hyn i gyd yn cyfrannu at ymddygiad gwell a pherthnasoedd iachach. Ein profiad ni yw bod hyn yn rhywbeth y mae ysgolion a cholegau yn ceisio ei wneud gyda lefelau amrywiol o lwyddiant. Mewn rhai mannau mae hyn yn cael ei wneud yn dda, mae'n ystyrlon ac yn cael ei gymryd o ddifrif – ond mewn eraill, mae disgyblion yn cael eu holi am eu barn ond yna'n cael eu hanwybyddu, mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ac nid ydynt yn cael eu hegluro'n iawn, ac nid yw adborth yn cael ei roi. Mae llawer o'r gwaith hwn hefyd yn canolbwyntio ar ddisgyblion hŷn, ac rydym yn credu bod angen llawer mwy o ffocws ar Gyfnod Allweddol 3 fel bod arferion yn cael eu hadeiladu'n gynnar.

# 4. ARGYMHELLION

*Credwn, drwy weithredu ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, y gall ysgolion a cholegau feithrin diwylliant mwy cadarnhaol, lle mae pobl ifanc yn gallu datblygu perthnasoedd parchus, llawn empathi a dealltwriaeth gyda staff a disgyblion eraill, sy'n gwneud lleoedd dysgu fwy diogel i bawb.*

Mae creu ysgolion a cholegau diogel, cefnogol a chynhwysol yn hanfodol i helpu pobl ifanc i ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn. Rydym eisiau system addysg sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd, nid arholiadau yn unig. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen amgylchedd ar ddisgyblion lle maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu, eu bod nhw'n cael eu clywed, ac yn hyderus yn mynegi pwy ydyn nhw. Os bydd pobl ifanc yn teimlo'n rhan o wneud penderfyniadau ac yn cael dweud eu dweud ar sut i wneud pethau, gallai hyn helpu i leihau ymddygiad sy'n tarfu.

Nid yw anghenion llawer o bobl ifanc yn cael eu diwallu, ac rydym yn credu ei fod yn ffactor sylweddol sy'n arwain at ymddygiad problemus.

Er gwaethaf rhai canlyniadau cadarnhaol ynghylch pa gymorth iechyd meddwl sydd ar gael, nid oedd yr hyn a glywsom yn ein hymgynghoriad yn ein synnu. Yn hytrach, cafwyd cadarnhad o'r hyn rydyn ni wedi'i weld ein hunain a'r hyn y mae llawer o bobl ifanc wedi bod yn ei ddweud ers blynyddoedd:

- Mae ymddygiad sy'n tarfu ar ystafelloedd dosbarth yn broblem fawr.
- Mae pobl ifanc sy'n cael eu hymylu yn cael eu heffeithio'n fwy negyddol, maen nhw'n teimlo'n llai diogel, ac yn cael eu targedu ar gyfer cam-drin a bwlio.

- Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'n arw cael staff cefnogol, llawn empathi, ac maen nhw eisiau mwy o fynediad atynt – ond nid yw'n ddarlun cyson ledled y wlad.
- Mae angen i wersi, a'r ffordd y mae addysg yn cael ei chyflwyno, fod yn fwy deniadol ac amrywiol.
- Iechyd meddwl gwael a straen sydd â'r effaith fwyaf ar ymddygiad disgyblion, yn enwedig o gwmpas cyfnodau arholiadau.
- Mae stigma o hyd o ran pobl ifanc sy'n gofyn am gymorth iechyd meddwl.
- Nid yw pobl ifanc yn teimlo'n rhan o wneud penderfyniadau nac yn gallu dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu hysgol neu goleg.

Mae nifer o argymhellion a gafodd eu gwneud mewn adroddiadau blaenorol gan Senedd Ieuenctid Cymru yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent ar adeg eu cyhoeddi:

***"Rhaglenni hyfforddi i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn eu cefnogi i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r heriau iechyd meddwl y mae pobl ifanc o gefndiroedd gwahanol yn eu hwynebu fel pobl niwroamrywiol, pobl ag anabledd, aelodau o'r gymuned LHDTC+, pobl mewn tlodi, a phobl o ethnigrwydd gwahanol."  (Adroddiad 'Meddyliau Iau o Bwys', Tachwedd 2022)***

***"Lleoliadau addysg i greu mwy o fannau diogel i bobl ifanc siarad â phobl ifanc eraill, a gweithwyr proffesiynol" (Adroddiad 'Meddyliau Iau o Bwys', Tachwedd 2022)***

***"Camau i fynd i'r afael ag anoddefgarwch pan fydd pobl ifanc yn cael eu haddysg, i hysbysu pobl ifanc i ddeall gwahanol ddiwylliannau, safbwyntiau a chredoau" (Adroddiad 'Meddyliau Iau o Bwys', Tachwedd 2022)***

***"Provide youth groups, schools and colleges the resources to enable more school visits and activities." (Adroddiad Fy Niwrnod Ysgol, Tachwedd 2023)***

***"Dylai pobl ifanc fod wrth wraidd penderfyniadau o ran pa weithgareddau a ddarperir" (Adroddiad Fy Niwrnod Ysgol, Tachwedd 2023)***

O ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan grwpiau o bobl ifanc wedi'u hymylu, er ein bod yn ymwybodol mai dim ond crafu'r wyneb ydyn ni gyda'n hymchwil, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi tynnu sylw dro ar ôl tro at anghydraddoldeb profiadau yn eu hadroddiadau **'Gobeithion i Gymru'**, a

'Coronafeirws a Fi' sy'n tynnu sylw at bobl ifanc o **gefndir du ac ethnig leiafrifol** **a phobl ifanc ag anableddau**. Mae adborth o'n harolwg a'n grwpiau ffocws yn tynnu sylw at bryderon difrifol, ond nid ydym wedi cael yr amser i fynd at wraidd y broblem yn iawn, ac edrych ar y gefnogaeth sydd ei hangen. Rydym am i bobl adeiladu ar ein gwaith, i gloddio'n ddyfnach i'r meysydd hyn, yn enwedig gyda phobl ifanc y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol, y rhai ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc o gefndiroedd ethnig gwahanol, pobl ifanc LHDTC+, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd tlotach.

Un o'r pethau sy'n ein poeni fwyaf yw'r teimlad bod pobl ifanc wedi dechrau dod i arfer ag ymddygiad problemus. Maen nhw'n aml yn derbyn pethau na ddylem ni eu hystyried yn normal neu'n dderbyniol, sy'n awgrymu lefel bryderus o dderbyn pethau. Mae'r pwynt hwn yn cael ei bwysleisio gan y ffaith bod 40% o'r ymatebwyr wedi dweud wrthym eu bod yn dyst i ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn eu hysgol neu goleg, ond dim ond 19% oedd yn meddwl ei fod yn broblem. Mae'r math hwn o ymddygiad wedi dod yn normal. Nid yw hyn yn iawn, ac mae'n rhaid i ni anelu'n uwch.

Rhoddwyd llawer o enghreifftiau cadarnhaol gan bobl ifanc o'u mannau dysgu yn gweithio tuag at greu amgylcheddau diogel a chefnogol lle gall perthnasoedd ffynnu. Yr her nawr yw sicrhau bod hyn yn digwydd yn fwy cyson ledled y wlad, ac i wneud hynny mae angen i ysgolion a cholegau ddysgu o lwyddiannau a chamgymeriadau ei gilydd fel y gall pob person ifanc fod ar eu hennill.

Rydym yn gwybod nad yw materion sydd o bwys mawr i gymdeithas, fel troseddu, anghydraddoldeb, gwahaniaethu, a thlodi yn dechrau nac yn gorffen wrth gatiau'r ysgol. Fodd bynnag, mae yna gamau ymarferol y gellir eu cymryd mewn ysgolion a cholegau yr ydyn ni o'r farn eu bod yn realistig ac yn gyrraeddadwy. Gall y camau gweithredu hyn wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau bob dydd pobl ifanc, gan eu helpu i deimlo'n fwy diogel, eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn cael mwy o gefnogaeth.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud hi'n flaenoriaeth i weithredu i wella'r profiad ar gyfer pobl ifanc o grwpiau sy'n cael eu hymylu yn y llefydd maent yn cael eu haddysg. Dylai adeiladu ar ein gwaith ac ymgysylltu ymhellach â'r grwpiau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn i ddarganfod datrysiadau a fydd yn gwella eu diogelwch ac felly eu profiadau addysg.

**Argymhelliad 2.** Adolygu canllawiau ar gyfer ysgolion a cholegau yn ymwneud ag adrodd am ddigwyddiadau, a gweithdrefnau a systemau diogelwch, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu tynhau fel bod pobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel.

**Argymhelliad 3.** Parhau ag ymdrechion i wella cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a cholegau, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â stigma ynghylch cael cefnogaeth, gwella ansawdd y cymorth sydd ar gael, a sicrhau bod mannau diogel ar gael i leihau straen. Mae angen rhoi cynlluniau clir ar waith i gefnogi disgyblion yn y cyfnod cyn adegau llawn straen, fel cyfnodau arholiadau.

**Argymhelliad 4.** Rhoi mwy o lais i ddisgyblion, a sicrhau bod pobl ifanc o bob oed yn rhan o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau ynghylch diogelwch, cynhwysiant, a'r amgylchedd addysgol cyffredinol.

**Argymhelliad 5.** Gwneud gwersi yn fwy diddorol, rhyngweithiol a pherthnasol i faterion sy'n bwysig i bobl ifanc, fel bod disgyblion yn teimlo'n rhan o bethau ac yn llawn cymhelliant.

**Argymhelliad 6.** Gwneud yn siŵr bod gan ysgolion a cholegau'r adnoddau angenrheidiol i alluogi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad at gymorth uniongyrchol un–i-un gan athrawon a staff. Dylent hefyd gael adnoddau i ddarparu mwy o weithgareddau cymdeithasol a grwpiau cymdeithasol a fydd yn helpu i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a staff.

**Argymhelliad 7.** Darparu mwy o wersi i ddisgyblion, a hyfforddiant i staff, sy'n dangos canlyniadau troseddau difrifol, sut i gadw'n ddiogel, perthnasoedd iach, ymddygiad cadarnhaol, ac amrywiaeth a chynhwysiant i wella'r profiad addysgol i bob person ifanc gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd wedi'u hymylu. Rhaid gweld hon fel rhaglen ystyrlon a pharhaus, nid ymarfer ticio blychau sy'n digwydd dim ond un tro.

**Argymhelliad 8.** Darparu cymorth a hwyluso rhannu arfer da a chanllawiau i ysgolion a cholegau, er mwyn gwella cysondeb ledled y wlad mewn perthynas â chynhwysiant, rheoli ymddygiad disgyblion a bwlio.

# ATODIAD

## Grwpiau ffocws

- ITEC Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol y Grango
- Ysgol y Creuddyn
- Grŵp LHDTC+ GISDA
- DIGON Plasmawr
- Balch Plasmawr
- Uned Cyfeirio Disgyblion Aberaeron
- Meddwl Ymlaen, Barnado's – Ynys Môn
- Umbrella Allies – Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
- YMCA Abertawe




dd Cymru
n Parliament

**GWEFAN**: SENEDDIEUENCTID.CYMRU

**INSTAGRAM**: SENEDDIEUENCTIDCYMRU

**FACEBOOK**: SENEDDIEUENCTIDCYMRU

**X**: @SENEDDIEUENCTID